53. A phan welas yr amheraỽdyr yr aerua oe wyr, bryssyaỽ a oruc yn borth udunt. Ac yna y gỽnaethpỽyt y Brytanyeit yn veirỽ; kanys Kynuarch tyỽyssaỽc Trigeri a dỽy vil y gyt ac ef a las yna. Ac yna y llas or parth arall trywyr, nyt amgen, Rigyfarch a Bolconi a Laỽin o Votlan. A phei bydynt tywyssogyon teyrnassoed, yr oessoed a delhynt gof hyt vraỽt ac a enrydedynt eu molyant ac eu clot. Ac eissoes pỽy bynhac a gyfarffei a Hoỽel neu a Gỽalchmei oc eu gelynyon, ny diagei ae eneit gantaỽ. A gỽedy eu dyuot, megys y dywespỽyt uchot, hyt ym plith bydin yr amheraỽdyr, yn damgylchedic oc eu gelynyon y syrthassant y tryỽyr hynny. Ac ỽrth hynny Howel a Gỽalchmei, y rei ny magyssit yn yr oessoed kyn noc ỽynt neb well noc ỽynt, pan welsant yr aerua oc eu kedymdeithon, yn ỽychyr y kyrchassant hỽnt ac yman, vn o bop parth yn gyffredin yn dyỽalhau ac yn blinaỽ bydin yr amheraỽdyr, ac megys llucheit yn llad a gyfarffei ac ỽynt, ac yn annoc eu kedymdeithon; a Gỽal[ch]mei yn damunaỽ oe holl dihewyt ymgaffel a Les amheraỽdyr y gymell arnaỽ peth a digonei ym milỽryaeth. Ac nyt oed haỽd barnu pỽy oreu, ae Hoỽel ae Gỽalchmei.

54. Ac odyna Gỽalchmei a gafas y damunedic hynt. Ac yn ỽychyr kyrchu yr amheraỽdyr a oruc, a gossot arnaỽ. Ac eissoes Les, megys yd oed yn dechreu

blodeuaƈ dewred y ieuenctit ac yn vaƈr y ynni, nyt oed well dim gantaƈ ynteu noc ymgaffel ar ryƈ uarchaƈc clotuaƈr hƕnnƈ, yr hƕnn a gymellei y wybot beth vei y angerd ae deƈred. Ac ƈrth hynny diruaƈr leƈenyd a gymerth yndaƈ ƈrth ymgaffel ohonaƈ a gƈr kynglotuorusset a Gƈalchmei. Ac ymerbynyeit yn galet a ƕnaeth pob vn ae gilid, megys na ƈelat rƈg deu vilƈr ymlad a gyffelypit y hƕnnƈ. A phan yttoedynt ƈy yn neƈidyaƈ kaledyon dyrnodeu, a phob vn yn llafuryaƈ agheu y gilyd, nachaf y Rufeinwyr ynn ympentyryaƈ yn eu kylch, hyt pan vu reit y Walchmei a Howel ac eu bydinoed enkilyaƈ hyt ar vydin Arthur, gan eu llad or Rufeinwyr yn drut.

55. A phan welas Arthur yr aerua yd oedit yn y wneuthur oe wyr ef, tynu Caletvƈlch y gledyf goreu a ƕnaeth, ac yn vchel dyƈedut val hynn: "Py achaƈs y gedƈch chƈi y gƈreicolyon wyr hynn y genƈch? Nac aet vn yn vyƈ onadunt, nac aet. Koffeƈch aƈch deheuoed, y rei yn gyfrƈys yn y saƈl ymladeu kyn no hynn a darestygassant dec teyrnas ar hugeint ƈrth vym medyant. Koffeƈch aƈch hendadeu, y rei, pan oedynt gadarnach gƈyr Rufein no hediƈ, ae gƕnaethant yn drethaƈl udunt. Koffeƈch aƈch rydit, yr honn y mae yr hanher gƈyr hynn yn keissaƈ y dƈyn y genƈch. Ac ƈrth hynny nac aet vn yn vyƈ onadunt, nac aet." A chan dywedut yr ymadrodyon hynny, kyrchu y elynyon ac eu bƈrƈ dan y draet ac eu llad. A phƈy bynnac a gyfarffei ac ef, o vn dyrnaƈt y lladei ac ef ae varch. Ac ƈrth hynny paƈb a foynt racdaƈ, megys y foynt aniueileit rac lleƈ creulaƈn, pan vei neƈyn maƈr arnaƈ ac ynteu yn keissaƈ bƈyt. A phƈy bynhac o damƈein a gyfarffei ac ef, nys differei y arueu ef rac Caletuƈlch, hyt pan vei reit idaƈ talu y eneit y gyt ae ƈaet. Deu urenhin oc eu drycdamƈein a gyfaruuant ac ef, Sertor brenhin Libia a Pholites brenhin Bitinia. Ar deu hynny gƈedy llad eu penneu a anuones Arthur y Rufein.

56. A gƈedy gƈelet or Brytanyeit eu brenhin yn ymlad uelly,[1] gleƈder ac ehofynder a gymerassant, a chan teƈhau eu bydinoed o vn vryt kyrchu y Rufeinwyr gan darparu mynet drostunt. Ac eissoes gƈrthƈynebu yn wychyr a oruc y Rufeinwyr udunt, ac o dysc Les amheraƈdyr llafuryaƈ y talu aerua yr Brytanyeit. A chymeint uu yr ymlad yna o bop parth a chyt pei[2] yr aƈr honno y dechreuynt yr ymlad. Or neill parth yd oed yr arderchaƈc vrenhin Arthur yn llad y elynyon, ac yn annoc y wyr y sefyll yn ƈraƈl. Ac or parth arall yd oed Les amheraƈdyr yn annoc y Rufeinwyr ac yn eu dysgu ac yn eu moli. Ac ny orfoƈyssei ynteu yn llad ac yn bƈrƈ y elynyon ac yn kylchynu y vydinoed ehun. A phy elyn bynac a gyfarffei ac ef, a gƈayƈ neu a chledyf y lladei. Ac uelly o bop parth y bydei Arthur yn gƕneuthur aerua. Kanys gƈeitheu y bydynt trechaf[3] y Brytanyeit, gƈeitheu ereill y bydynt[4] trechaf[3] y Rufeinwyr. A phan yttoedynt hƈy[5] yn yr ymfust hƕnnƈ, heb wybot py diƈ y damƈeinei y vudugolyaeth, nachaf Morud iarll Caer Loyƈ yn dyuot ar lleg a dyƈedassam ni y hadaƈ uchot yg gƈersyll, ac yn deissyfyt[6] yn kyrchu eu gelynyon yn dirybud or tu yn eu[7] hol ac yn mynet drostunt, gan eu gƈasgaru a gƕneuthur aerua diruaƈr y meint. Ac yna y syrthassant[8] llaƈer o vilyoed or Rufeinwyr. Ac yna y dygƈydƈys Les amheraƈdyr yn vrathedic gan leif neb vn, ac y bu varƈ. Ac yna, kyt bei drƈy diruaƈr lafur, y Brytanyeit a gaƈssant y maes.[9]

57. Ac yna y gƈasgarassant[1] y Rufeinwyr[2] yr diffeithƈch ac yr coedyd, ac ofyn yn eu kymell. Ereill yr dinassoed

(Ch. 56). 1 y velly? *the initial letters are illegible*, 2 chyn bei, 3 drechaf, 4 bydei, 5 ƈy, 6 deissyfedic, 7 y, 8 syrthysant, 9 ar goruot *add.*
(Ch. 57). 1 gvasgaryssant, 2 rei *add.*

ar kestyll ac yr lleoed kadarn y ffoynt; ar Brytanyeit oc eu hol yn[3] eu hymlit, ac o druanaf aerua[4] yn eu llad ac yn eu dala ac yn eu hyspeilaȣ. Ac uelly megys y rodynt y ran vȣyaf[5] onadunt eu dȣylaȣ yn wreigaȣl y eu rȣymaȣ ac y eu karcharu, y geissaȣ ystynu ychydic y[6] eu hoedel. A hynny[7] o jaȣn vraȣt[8] Duȣ. Kanys eu hendadeu ȣynteu kyn no hynny yn andylyedus a ȣnathoedynt[9] y Brytanyeit yn drethaȣl udunt; ar Brytanyeit yna yn nackau udunt y dreth yd oedynt yn andylyedus yn y cheissaȣ gantunt.[10]

58. A gȣedy caffel o Arthur y vudugolyaeth, ef a erchis gȣahanu ar neillтu[1] kalaned y wyrda ef y ȣrth y elynaȣl galaned ac eu kyȣeiryaȣ o vrenhinaȣl defaȣt, ac eu dȣyn yr[2] manachlogoed a vei yn eu gȣlat yn ansodedic, ac yno eu cladu yn enrydedus. Ac yna y ducpȣyt corff Bedwyr hyt y dinas ehun yn Normandi gan diruaȣr gȣynuan y[3] gan y Normanyeit. Ac yno y myȣn mynȣent ar deheu y dinas y cladȣyt yn enrydedus gyr[4] llaȣ y mur. Kei a ducpȣyt yn urathedic hyt yg Kam, y kastell[5] a ȣnathoed[6] ehun. Ac yno ny bu bell gȣedy hynny yny vu[7] uarȣ Kei[8] or brath hȣnnȣ. Ac yn y fforest a oed yn agos yno y myȣn manachlaȣc ermitwyr or enryded a dylyei iarll yr Angiȣ y cladȣyt. Hodlyn tyȣyssaȣc a ducpȣyt hyt y[9] dinas ehun, yr hȣn a elȣir y Tyruan, ac yno y cladȣyt. Y gȣyrda ereill a erchis Arthur eu dȣyn yr manachlogoed nessaf udunt ar hyt y gȣlatoed.[10] Ac yna[11] yd erchis ef y ȣyr y wlat honno cladu y elynyon,[12] ac anuon corff Les amheraȣdyr hyt yn sened Rufein. Ac erchi menegi udunt na dylyynt hȣy[13 14] teyrnget o ynys Prydein amgen no hȣnnȣ. Ac yno y bu Arthur y gayaf

(Ch. 57). 3 oc eu holl ynni yn, 4 agheu, 5 vvyaff, 6 *om.*, 7 ac uelly, 8 varn, 9 wnaethoedynt, 10 yn y cheissav yn andylyedus y ganthunt
(Ch. 58). 1 gvahanu a neillтua, 2 yr, 3 *om.*, 4 ger, 5 hyt–kastell : hyt y castell, 6 wnaethoed, 7 yny vu : y bu, 8 *om.*, 9 yn y, 10 gvladoed, 11 odyna, 12 gelynyon, 13 vy, 14 tremygu y brytanyeit nac erchi *add.*

hȣnnȣ yn goresgyn y dinassoed y Mȣrgȣin.[15] A phan yttoed yr haf yn dechreu dyuot, ac Arthur yn ysgynu mynyd Mynheeu[16] ȣrth vynet parth a Rufein, nachaf genadeu o ynys Prydein yn menegi y Arthur ry daruot[17] y Vedraȣt y nei, uab y chȣaer, goresgyn[18] ynys Prydein a gȣisgaȣ[19] coron y teyrnas am y pen[20] ehun[21] drȣy greulonder a brat, a thynu[22] Gȣenhȣyfar vrenhines oe rieingadeir a ry gysgu[23] genti, gan lygru kyfreith dȣywaȣl y neithoreu.[24]

59. A gȣedy menegi hynny y Arthur, yn y lle peidyaȣ[1] a oruc ae darpar am vynet y Rufein, ac ymchoelut parth ac ynys Prydein, a brenhined yr ynyssed y gyt ac ef. A gellȣg Howel uab[2] Emyr Lydaȣ a llu gantaȣ y tagnefedu ac y hedychu y gȣladoed.[3] Kanys yr yscymunedickaf[4] vradȣr gan Vedraȣt a anuonassei Cheldric[5] tyȣyssaȣc y Saeson hyt yn Germania y gynullaȣ y llu mȣyaf a gallei yn borth idaȣ. A rodi udunt a oruc o Humyr hyt yn Yscotlont, ac yn achȣanec kymeint ac a uuassei y[6] Hors a Heingyst[7] kyn no hynny yg Kent.[8] Ac ȣrth hynny y deuth Cheldric ac ȣyth cant[9] llog yn llaȣn o wyr aruaȣc gantaȣ[10] o baganyeit,[11] a gȣrhau y Vedraȣt ac ufudhau megys y vrenhin. Ac neur daroed idaȣ gedymdeithockau ataȣ yr Yscottyeit ar Ffichteit, a phaȣb or a ȣypei ef idaȣ gassau y ewythyr,[12] hyt pan yttoedynt oll petwar[13] ugein mil rȣg Cristonogyon a phaganyeit.

60. Ac a hynny o nifer gantaȣ y deuth Medraȣt[1] hyt yn aber Temys, y lle yd oedynt llogeu Arthur yn disgynnu. A gȣedy dechreu ymlad, ef a[2] wnaeth aerua diruaȣr

(Ch 58). 15 gvrescyn dinassoed bȣrgȣyn, 16 mynheu, 17 darvot? 18 gverescyn, 19 arwisgaȣ? 20 ben, 21 *om.*, 22 thynhu, 23 chysgu, ry *om.* 24 neithoryeu
(Ch. 59). 1 peidaȣ, 2 ac ellvg hvel m., 3 gvledi, 4 yscymunediccaf. 5 chledric, 6 *om.*, 7 hengist, 8 ygkeint, 9 can, 10 *om.*, 11 paganyeit, 12 *The word before* hyt *is* (a)rthur; *between* pav(b) *and this there is a hole in the* MS., 13 *The initial letters seem to be* deu, *what follows is illegible*
(Ch. 60). 1 *om.*

onadunt yn dyuot yr tir. Kanys yna y dygỏydassant Araỏn uab Kynuarch, brenhin Yscotlont, a Gỏalchme[i][3] uab[4] Gỏyar. Ac yn ol Araỏn y deuth Owein vab[4] Vryen yn vrenhin yn Reget, y gỏr gỏedy hynny a vu clotuaỏr yn llaỏer o gynhenneu. Ac or diwed, kyt[5] bei drỏy diruaỏr lafur a thrỏy eu llad,[6] Arthur ae lu a gafas y tir. A chan talu yr aerua ỏynt a gymellassant Vedraỏt[7] ae lu ar ffo. A chyn bei mwy eiryf llu Medraỏt no llu Arthur, eissoes kywreinach a doethach yd ymledynt o beunydyaỏl ymladeu.[8] Ac ỏrth hynny y bu dir yr anudonaỏl[9] gan Vedraỏt gymryt y ffo. Ar nos honno, gỏedy ymgynullaỏ y wascaredic[10] lu y gyt, yd aeth hyt yg Kaer Wynt. A gỏedy clybot o Wenhỏyuar[11] hynny, diobeithaỏ a oruc, a mynet o Gaer Efraỏc hyt yg Kaer[12] Lion ar Wysc. Ac[13] y myỏn manachlaỏc gỏraged a[14] oed yno gỏisgaỏ yr abit ymdanei ac adaỏ cadỏ y diỏeirdeb yn eu plith o hynny allan. Ar abit honno a vu ymdanei hyt agheu.

61. Ac odyna Arthur a gymerth llit maỏr yndaỏ am gollỉ[1] ohonaỏ y saỏl vilioed hynny, a pheri cladu y wyr. Ar trydyd dyd kyrchu Caer Wynt a oruc ac yn diannot y chylchynu. Ac yr hynny ny pheidỏys Medraỏt ar hynn a dechreuassei, namyn, gan annoc y wyr, eu gossot yn vydinoed a mynet allan or dinas y ymlad ac Arthur y ewythyr. A gỏedy dechreu ymlad, aerua vaỏr o pob parth a wnaethant. Ac eissoes mỏyaf vu yr aerua o wyr Medraỏt; ac yn dybryt kymell arnaỏ adaỏ y maes. Ac ny hanbỏyllỏys[2] Medraỏt yna gohir ỏrth gladu y ladedigyon, namyn ffo a oruc parth a Chernyỏ.

62. Ac ỏrth hynny Arthur, yn bryderus ac yn llidiaỏc

(Ch. 60). 2 aeth ac a *add.*, 3 gỏalchmei, 4 mab, 5 *only* ky *is legible*, 6 a thrỏy eu llad *om.*, 7 medraỏt, 8 o beunydyaỏl ymladeu: wyr arthur, kanys kyfrỏys oedynt o peunydyaỏl ymlad, 9 kelwydaỏc *add.*, 10 gỏasgaredigyon, 11 vrenhines *add.*, 12 ygkaer, 13 yno *add.*, 14 *om.*

(Ch. 61). 1 rygollỉ, 2 handenỏys

a achaỏs dianc y tỏyllỏr[1] y gantaỏ, yn y lle[2] ae hymlynỏys hyt y wlat honno hyt ar lan Kamlan, y lle yd oed Vedraỏt yn y aros.[3] Ac ỏrth hynny megys yd oed Vedraỏt gleỏaf a gỏychraf yn cyrchu, yn y lle gossot y varchogyon yn vydinoed a oruc. Kanys gỏell oed gantaỏ y lad neu ynteu a orffei, no ffo yn hỏy no hynny. Kanys yd oed ettwa gantaỏ o eiryf trugein mil. Ac o hynny y gỏnaeth ef whech[4] bydin, a whech[5] gỏyr a thrugeint a chwe[6] chant a chwe[6] mil ym pob bydin o wyr aruaỏc. Ac or rei nyt aed[7] yn y chwech[4] bydin ef a wnaeth bydin idaỏ ehun, a rodi llywodron y bop vn or rei ereill oll.[8] A dyscu paỏb onadunt ac eu hannoc y ymlad a oruc, gan adaỏ udunt enryded a chyfoeth, os ef a orffei. Ac or parth arall Arthur a ossodes y wyr[9] ynteu drỏy naỏ bydin; a gorchymyn y baỏp onadunt[10] ac annoc llad y lladron tỏyllwyr yskymyn,[11] a dathoedynt o wladoed ereill o dysc y bratỏr[12] y geissaỏ y digyfoethi ynteu. " Ar bobyl a gelỏch[13] racko," heb Arthur, " a[14] gynullỏyt o wlatoed[15] amryfaelon, ac aghyfyeith ynt a llesc ag aghyfrỏys ar ymlad. Ac ny allant gỏrthỏynebu yỏch, kanys kyfrỏys yỏch chỏi."[16] Ac velly paỏb onadunt yn annoc y wyr or parth arall.[17] Ac yn deissyfyt ymgyfaruot a ỏnaeth y bydinoed yghyt,[18] a dechreu ymlad a newidyaỏ dyrnodeu yn vynych. A chymeint vu yr aerua yna o bop parth ac megys yd oed gỏynfan[19] y rei meirỏ yn kyffroi y rei byỏ ar lit ac ymlad, ac megys yd oed blin a llafuryus[20] y yscriuenu nae datkanu. Kanys o bop parth y brethynt ac y brethit ỏynteu; ỏynt a ledynt ac ỏynteu a ledit.

63. Ac or diwed gỏedy treulaỏ llaỏer or dyd yn y mod

(Ch. 62). 1 y mynychet hỏnnỏ *add.*, 2 ef *add.*, 3 arhos, 4 whech, 5 ỏhe, 6 whe, 7 aeth, 8 rodi llywodraeth y pop bydin oll, 9 lu, 10 ohonunt, 11 ysgymun, 12 bradỏr, 13 welhỏchi, 14 ar, 15 wladoed, 16 yỏchi, 17 or parth arall: o pop parth, 18 ygyt, 19 kỏynuan, 20 llafurus

hǒnnǒ, Arthur ae vydin a gyrchǒys y vydin y gǒydat[1] bot y tǒyllǒr gan Vedraǒt yndi,[2] ac agori ffyrd udunt ar clefydeu,[3] ac yn diannot mynet drostunt, a gǒneuthur[4] aerua diruaǒr[5] onadunt. Kanys yn y lle y dygǒydǒys yr yscymunedickaf[6] vradǒr hǒnnǒ gan Vedraǒt, a llaǒer o vilioed y gyt ac ef. Ac eissoes yr hynny ny ffoyssant[7] y rei ereill, namyn ymgynullaǒ y gyt[8] or maes oll, ac yn herǒyd eu gleǒder keissaǒ ymgynhal a gǒrthǒynebu y Arthur. Ac ǒrth hynny gǒychraf a girattaf[9] a chreulonaf aerua a vu y rydunt yna o bop parth, ac eu bydinoed yn syrthaǒ. Ac yna o bop[10] parth y[10] Vedraǒt y syrthassant[11] Cheldric[12] ac Elafyǒs,[13] Egberinc[10] brenhin or Saeson; or Gǒydyl Gilapadric,[14] Gillamǒri, Gillasel, Gillamor.[15] Yr Yscottyeit ar Ffichteit ac ǒynt ac eu harglǒydi oll hayach a las. Ac o bleit[16] Arthur y llas Osbrinc brenhin Lychlyn, Echel brenhin Denmarc,[17] Kadǒr Lemenic[18] iarll Kernyǒ, Kasǒallaǒn, a llaǒer o vililioed[19] y gyt ac ǒynteu,[20] rǒg y Brytanyeit a chenedloed ereill a ducsynt y gyt ac ǒynt. Ac ynteu yr arderchaǒc vrenhin Arthur a vrathǒyt yn agheuaǒl, ac a ducpǒyt odyna hyt yn ynys Avallach y iachau y welieu. Coron y[21] teyrnas o ynys Prydein a gymynnǒys ynteu y Gustenin[22] vab Kadǒr iarll Kernyǒ y gar. Dǒy vlyned a deugeint[23] a phump kant gǒedy dyfot Crist yg knaǒt dyn oed hynny yna.

(Ch. 63). 1 gǒydyat, 2 yndianc, 3 cledyfeu, 4 tristaf, 5 *om.*, 6 ysgymunediccaf, 7 foassant, 8 yghyt, 9 girattaff, 10 *om.*, 11 syrthyssant, 12 chledric, 13 elefyǒys, 14 gillapadric, 15 gillamor gillasel gillamǒri, 16 pleit, 17 denmarch, 18 llymenic, 19 vilyoed, 20 ǒynt, 21 *om.*, 22 gustenhin, 23 deu vgeint

III. THE HUNTING OF TWRCH TRWYTH.

1. Kerdet a orugant ǒy ỳ dỳd hǒnnǒ educher. Hỳnỳ[1] vỳd kaer uaen[2] gỳmrǒt a welasit,[3] uǒỳhaf ar keỳrỳd ỳ bỳt[4]. Nachaf gǒr[5] du mǒỳ[6] no thrỳǒỳr[7] ỳ bỳt hǒnn a welant[8] ỳn dỳuot or gaer. Amkeudant[9] ǒrthaǒ: "Pan doỳ ti,[10] ǒr?" "Or gaer a welǒch chǒi ỳna."[11] "Pieu ỳ gaer?"[12] "Meredic a wỳr ỳǒchi.[13] Nỳt oes ỳn ỳ bỳt nỳ ǒỳppo pieu ỳ gaer honn. Wrnach Gaǒr pieu."[14] "Pỳ uoes ỳssỳd ỳ osp a phellenhic ỳ diskỳnnu ỳn ỳ gaer honn?" "Ha vnben, Duǒ ach notho![15] Nỳ dodỳǒ[16] neb guestei eiroet oheni[17] ae uỳǒ[18] gantaǒ.[19] Nỳ edir neb idi namyn a dỳccǒỳ[20] ỳ gerd."[21]

2. Kỳrchu ỳ porth a orugant. Amkaǒd[1] Gǒrhỳr Gualstaǒt Ieithoet: "A oes porthaǒr?"[2] "Oes. A titheu[3] nỳ bo teu dỳ penn,[4] pỳr[5] ỳ kỳuerchỳ dỳ?" "Agor ỳ porth!" "Nac agoraf." "Pǒỳstỳr[6] nas agorỳ ti?" "Kỳllell a edỳǒ ỳm mǒỳt[7] a llỳnn ỳ mual,[8] ac amsathỳr ỳn neuad Vrnach.[9] Namỳn ỳ gerdaǒr a dỳccǒỳ[10] ỳ gerd nỳt agorir."[11] Amkaǒd Kei:[12] "Ỳ porthaǒr, ỳ mae kerd genhỳf i." "Pa gerd ỳssỳd genhỳt ti?" "Ỳslipanǒr cledỳueu goreu ỳn ỳ bỳt ǒỳf ui." "Mi a af ỳ dỳwedut hỳnnỳ ỳ Vrnach[13] Gaǒr, ac a dỳgaf atteb ỳt."

VARIANTS H=RED BOOK OF HERGEST, P=PENIARTH MS. 1V.

(Ch. 1). 1 yny H, 2 uaǒr H, 3 welynt H, 4 vǒyhaf or byt H, 5 ǒr H, 6 oed *add.* H, 7 yn *add.* H, 8 a welant *om.* H, 9 ac y dywedassant ǒynteu H, 10 deuy di H. 11 racco H, 12 heb ǒynt *add.* H, 13 yǒch chǒi H, 14 bieu H, 15 nodho H, 16 deuth H, 17 eiryoet ohonei H, 18 vywyt H, 19 gantaǒ H, 20 dycko H, 21 gantaǒ *add.* H.

(Ch. 2). 1 heb y H, 2 borthaǒr H, 3 thitheu H, 4 dy dauaǒt yth benn H, 5 py rac H, 6 Py ystyr H, 7 bǒyt H, 8 ym bual H, 9 ǒrnach gaǒr H, 10 dycko H, 11 yma heno bellach *add.* H, 12 Heb y kei yna H, 13 ǒrnach H

3. Dẏuot a oruc ẏ porthaȣr ẏ mẏȣn. Dẏwaȣt[1] Wrnach Gaȣr:[2] "Whedleu[3] porth genhẏt?"[4] "Ẏssẏdẏnt genhẏf. Kẏweithẏd ẏssẏd ẏn drȣs ẏ porth, ac[5] a uẏnnẏnt dẏuot ẏ mẏȣn." "A ouẏnneist ti[6] a oed gerd ganthunt?"[7] "Gouẏnneis.[8] Ac vn onadunt a dẏwaȣt gallel[9] ẏslipanu cledẏueu."[10] "Oed[11] reit ẏ mi[12] ȣrth hȣnnȣ. Ẏs guers ẏd ȣẏf ẏn keissaȣ a olchei vẏg cledẏf; nẏs rẏgeueis.[13] Gat hȣnnȣ ẏ mẏȣn, cans oed[14] gerd ganthaȣ."

4. Dẏuot[1] ẏ porthaȣr ac agori ẏ porth. A dẏuot Kei ẏ mẏȣn ehun. A chẏuarch guell a oruc ef ẏ Wrnach Gaȣr. Kadeir a dodet ẏ danaȣ.[2] Dẏwaȣt[3] Wrnach[4]: "Ha ȣr, ae gȣir a dẏwedir arnat gallel[5] ẏslipanu cledẏueu?" "Mi ae digonaf."[6] Dẏdȣẏn[7] ẏ cledẏf attaȣ[8] a orucpȣẏt.[9] Kẏmrẏt agalen gleis a oruc Kei ẏ dan ẏ geffeil. "Pȣẏ well genhẏt arnaȣ,[10] ae guẏnseit ae grȣmseit?" "Yr hȣnn a uo da genhẏt ti, malpei teu uei, gȣna arnaȣ." Glanhau a oruc hanher ẏ lleill gẏllell idaȣ, ae rodi ẏn ẏ laȣ a oruc. "A reinc dẏ uod di hẏnnẏ?" "Oed well genhẏf noc ẏssẏd ẏm gȣlat, bei oll ẏt uei[11] val hẏnn. Dẏhed a beth bot gȣr kẏstal a thi heb gedẏmdeith." "Oia ȣrda, mae[12] imi gedẏmdeith kẏny dẏgo[n]ho[13] ẏ gerd honn." "Pwẏ ẏȣ hȣnnȣ?" "Aet ẏ porthaȣr allan, a mi a dẏwedaf ar arȣẏdon idaȣ.[14] Penn ẏ waẏȣ a daȣ ẏ ar ẏ baladẏr. Ac ẏssef a dẏgẏrch ẏ guaet ẏ ar y guẏnt ac a diskẏn ar ẏ baladẏr."[15] Agori ẏ porth a wnaethpȣẏt, a dẏuot Bedwẏr ẏ mẏȣn. Dẏwaȣt[16] Kei: "Budugaȣl ẏȣ Bedwẏr, kẏn nẏ digonho[17] ẏ gerd hon."

(Ch. 3). 1 ac y dywaȣt H, 2 ȣrthaȣ H, 3 chwedleu H, 4 y gennyt H, *in* P, y *has been added over the line*, 5 *om.* H, 6 ouynneist di H, 7 gantunt hȣy H, 8 heb ef *add.* H, 9 gȣybot H, 10 ohonaȣ yn da *add.* H, 11 as oed H, 12 ynni H, 13 ac nys keueis H, 14 kan oes H

(Ch. 4). 1 a oruc H, 2 geyr bron gȣrnach *add.* H, 3 ac y dywaȣt H, 4 ȣrthaȣ *add.* H, 5 arnat ti y gȣdost H, 6 Mi a ȣnn hynn yn da heb y kei H, 7 Dȣyn H, 8 ȣrnach H, 9 wnaethpȣyt attaȣ H, 10 a gouyn or deu pȣy oed oreu gantaȣ H, 11 pei bei oll ual H, 12 y mae ymi H, 13 dycko H, 14 idaȣ y arwydon H, 15 eilweith *add.* H, 16 ac y dẏwaȣt H, 17 wypo H

5. A[1] dadleu maȣr a uu ar ẏ gȣẏr hẏnnẏ allan. Dẏuot[2] Kei a Bedwẏr ẏ mẏȣn. A guas ieuanc a doeth gẏt[3] ac ȣẏnt ẏ mẏȣn, vn mab Custennhin heussaȣr. Sef a ȣnaeth ef ae gedẏmdeithon a glẏn[4] ȣrthaȣ mal nat oed vȣẏ no dim ganthunt[5] mẏnet[6] dros ẏ teir catlẏs a wnaethant[7] hẏt pan dẏuuant[8] ẏ mẏȣn ẏ gaer. Amkeudant[9] ẏ gedẏmdeithon ȣrth vab Custenhin: "Goreu dẏn ẏȣ."[10] O[11] hẏnnẏ allan ẏ gelwit Goreu mab Custenhin. Guascaru a orugant ȣẏ ẏ eu llettẏeu, mal ẏ keffẏnt llad eu llettẏwẏr heb ȣẏbot ẏr caȣr.

6. Ẏ cledẏf a daruu ẏ ȣrteith. Ae rodi a oruc Kei ẏn llaȣ Wrnach Kaȣr,[1] ẏ malphei ẏ edrẏch a ranghei ẏ uod idaȣ ẏ weith.[2] Dẏwaȣt[3] ẏ kaȣr: "Da ẏȣ ẏ gueith, a ranc bod ẏȣ genhẏf." Amkaȣd[4] Kei: "Dẏ wein[5] a lẏgrȣẏs dẏ gledẏf. Dẏro di imi ẏ diot ẏ kellellprenneu[6] oheni,[7] a chaffȣẏf inheu gȣneuthur rei newẏd[8] idaȣ." A chẏmrẏt ẏ wein ohonaȣ, ar cledyf[9] ẏn ẏ llaȣ arall. Dẏuot[10] ohonaȣ vch pen ẏ kaȣr, malphei[11] ẏ cledẏf a dottei ẏn ẏ wein. Ẏ ossot a oruc ẏm phen[12] ẏ kaȣr, a llad ẏ penn ẏ ergẏt ẏ arnaȣ. Diffeithaȣ ẏ gaer, a dȣẏn a vẏnnassant o tlẏsseu.[13] Ẏg kẏuenȣ ẏr vn dẏd ẏm phen[14] ẏ vlȣẏdẏn ẏ deuthant[15] y lys Arthur, a chledyf Wrnach Gaȣr gantunt.

7. Dywedut a ȣnaethant y Arthur y ual y daruu udunt. Arthur a dywaȣt: "Pa beth yssyd iaȣnaf y geissaȣ gyntaf or annoetheu hynny?" "Iaȣnaf ẏȣ," heb ȣynteu, "keissaȣ Mabon uab Modron. Ac nyt kaffel arnaȣ nes kaffel Eidoel uab Aer y gar yn gyntaf." Kyuodi a oruc Arthur a milwyr ynys Prydein gantaȣ y geissaȣ Eidoel. A dyuot a orugant hyt yn rac Kaer Glini, yn y lle yd oed Eidoel yg

(Ch. 5). 1 *om.* H, 2 gan y gȣyr a oed allan am dyuot Bedwyr a Chei H, 3 A dyuot gȣas ieuanc oed H, 4 yg glyn H, 5 mal—ganthunt *om.* H, 6 dyuot H, 7 a wnaethant *om.* H, 8 yttoed H, 9 Y dywedassant H, 10 ti a orugost hynn goreu dyn ȣyt H, 11 Ac o H

(Ch. 6). 1 gaȣr H, 2 gȣeith H, 3 ac y dywaȣt H, 4 Y dywaȣt H, 5 wein di H, 6 kyllellbrenneu H, 7 ohonei H, 8 ac y wneuthur ereill o newyd H, 9 chedyf P, 10 a dyuot H, 11 mal pei H, 12 ynteu ym pennH, 13 or da ar tlysseu H, 14 penn H, 15 P *ends*

karchar. Seuyll a oruc Glini ar vann y gaer; ac y dywaȣt: "Arthur, py holy di y mi, pryt nam gedy yn y tarren honn, nyt da im yndi, ac nyt digrif, nyt gȣenith, nyt keirch im, kyn ny cheissych ditheu wneuthur cam im?" Arthur a dywaȣt: "Nyt yr drȣc itti y deuthum i yma, namyn y geissaȣ y karcharaȣr yssyd gennyt." "Mi a rodaf y carcharaȣr itti, ac ny darparysswn y rodi y neb. Ac y gyt a hynny vy nerth am porth a geffy di." Y gȣyr a dywaȣt ȣrth Arthur: "Arglȣyd, dos di adref. Ny elly di uynet ath lu y geissaȣ peth mor uan ar rei hynn." Arthur a dywaȣt: "Gȣrhyr Gȣalstaȣt Ieithoed, itti y mae iaȣn mynet yr neges honn. Yr holl ieithoed yssyd gennyt, a chyfyeith ȣyt ar rei or adar ar anniueileit. Eidoel, itti y mae iaȣn mynet y geissaȣ dy geuynderȣ yȣ gyt am gȣyr i. Kei a Bedwyr, gobeith yȣ gennyf y neges yd eloch ymdanei y chaffel. Eȣch im yr neges honn."

8. Kerdet a orugant racdunt hyt att vȣyalch Gilgȣri. Gouyn a oruc Gȣrhyr idi: "Yr Duȣ, a ȣdost ti dim y ȣrth Uabon uab Modron, a ducpȣyt yn teirnossic ody rȣng y vam ar paret?" Y uȣyalch a dywaȣt: "Pan deuthum i yma gyntaf, eingon gof a oed yma, a minneu ederyn ieuanc oedȣn. Ny wnaethpȣyt gȣeith arnei, namyn tra uu vyg geluin arnei bob ucher. Hediȣ nyt oes kymmeint kneuen ohonei heb dreulaȣ. Dial Duȣ arnaf, o chigleu i dim y ȣrth y gȣr a ovynnȣch chȣi. Peth yssyd iaȣn hagen a dylyet y mi y wneuthur y gennadeu Arthur, mi ae gȣnaf. Kenedlaeth vileit yssyd gynt rithȣys Duȣ no mi; mi a af yn gyuarwyd ragoch yno."

9. Dyuot a orugant hyt yn lle yd oed karȣ Redynure. "Karȣ Redynure, yma y doetham ni attat kennadeu Arthur, kany ȣdam aniueil hyn no thi. Dywet, a wdost di dim y ȣrth Uabon uab Modron, a ducpȣyt yn deirnossic y ȣrth y uam?" Y karȣ a dywaȣt: "Pan deuthum i yma gyntaf, nyt

oed namyn vn reit o bop tu ym penn. Ac nyt oed yma goet namyn un o gollen derwen. Ac y tyfwys honno yn dar can keing. Ac y dygȣydȣys y dar gȣedy hynny. A hediȣ nyt oes namyn ȣystyn coch ohonei. Yr hynny hyt hediȣ yd ȣyf i yma; ny chigleu i dim or neb a ouynnȣch chȣi. Miui hagen a uydaf gyfarȣyd yȣch, kanys kennadeu Arthur yȣch, hyt lle y mae aniueil gynt a rithȣys Duȣ no mi."

10. Dyuot a orugant hyt lle yd oed cuan Cum Kaȣlȣyt. "Cuan Cȣm Caȣlȣyt, yma y mae kennadeu Arthur. A ȣdost di dim y ȣrth Vabon vab Modron a ducpȣyt?" *et cetera.* "Pei as gȣypȣn, mi ae dywedȣn. Pan deuthum i yma gyntaf, y cȣm maȣr a welȣch glynn coet oed. Ac y deuth kenedlaeth o dynyon idaȣ, ac y diuaȣyt. Ac y tyuȣys yr eil coet yndaȣ. Ar trydyd coet yȣ hȣnn. A minneu neut ydynt yn gynyon boneu vy esgyll. Yr hynny hyt hediȣ ny chiglef i dim or gȣr a ouynnȣch chȣi. Mi hagen a uydaf gyuarwyd y genadeu Arthur, yny deloch hyt lle y mae yr anniueil hynaf yssyd yn y byt hȣnn, a mȣyaf a dreigyl, eryr Gȣern Abȣy.

11. Gȣrhyr a dywaȣt: "Eryr Gwern Abȣy, ni a doetham gennadeu Arthur attat y ouyn itt a ȣdost dim y ȣrth Vabon uab Modron a duc" *et cetera.* Yr eryr a dywaȣt: "Mi a deuthum yma yr ys pell o amser. A phann deuthum yma gyntaf, maen a oed ym, ac y ar y benn ef y pigȣn y syr bob ucher; weithon nyt oes dyrnued yn y uchet. Yr hynny hyt hediȣ yd ȣyf i yma. Ac ny chiglef i dim y ȣrth y gȣr a ouynnȣch chȣi, onyt un treigyl yd euthum y geissaȣ uym bȣyt hyt yn Llynn Lyȣ. A phann deuthum i yno, y lledeis uyg cryuangheu y myȣn ehaȣc o debygu bot vym bȣyt yndaȣ wers vaȣr. Ac y tynnȣys ynteu ui hyt yr affȣys, hyt pann uu abreid im ymdianc y gantaȣ. Sef a ȣneuthum inheu, mi am holl garant, mynet yg gȣrys ȣrthaȣ y geissaȣ y diuetha. Kennadeu a yrrȣys ynteu y gymot a mi. A dyuot a oruc ynteu attaf i y diot dec tryuer a deugeint oe geuyn. Onyt

ef a wyr peth or hynn a geissoch choi, ny onn i neb ae gopo. Mi hagen a uydaf gyuaroyd yoch hyt lle y mae."

12. Dyuot a orugant hyt lle yr oed. Dywedut a oruc yr eryr: "Ehaoc Lyn Lyo, mi a deuthum attat gan gennadeu Arthur y ouyn a odost dim y orth Vabon uab Modron, a ducpoyt yn teirnossic y orth y uam." "Y gymeint a wypoyf i, mi ae dywedaf. Gan bob llano yd af i ar hyt yr auon uchot, hyt pan deloyf hyt y mach mur Kaer Loyo. Ac yno y keueis i ny cheueis eirmoet o droc y gymeint. Ac mal y crettoch, doet un ar uyn doy ysgoyd i yma ohonaoch." Ac ysef yd aeth ar doy ysgoyd yr ehaoc. Kei a Gorhyr Gwalstaot Ieithoed. Ac y kerdassant hyt pann deuthant am y uagoyr ar karcharaor. Yny uyd koynuan a griduan a glywynt am y uagoyr ac oy. Gorhyr a dywaot: "Pa dyn a goyn yn y maendy honn?" "Oia or, yssit le idao y goynao y neb yssyd yma. Mabon uab Modron yssyd yma yg carchar; ac ny charcharoyt neb kyndostet yn lloro carchar a mi, na charchar Lud Lao Ereint neu garchar Greit mab Eri." "Oes obeith gennyt ti ar gaffel dy ellong ae yr eur ae yr aryant ae yr golut pressennaol, ae yr catwent ac ymlad?" "Y gymeint ohonof i a gaffer a geffir droy ymlad." Ymchoelut ohonunt oy odyno, a dyuot hyt lle yd oed Arthur. Dywedut ohonunt y lle yd oed Mabon uab Modron yg karchar. Goyssyao a oruc Arthur milwyr yr ynys honn, a mynet hyt yg Kaer Loyo, y lle yd oed Mabon yg karchar. Mynet a oruc Kei a Bedwyr ar doy yscoyd y pysc. Tra yttoed vilwyr Arthur yn ymlad ar gaer, roygao o Gei y uagoyr a chymryt y carcharaor ar y geuyn. Ac ymlad ar goyr ual kynt ar goyr. Atref y doeth Arthur a Mabon gantao yn ryd.

13. Dywedut a oruc Arthur: "Beth iaonhaf weithon y geissao yn gyntaf or annoetheu?" "Iaonhaf yo keissao deu geneu gast Rymhi." "A wys," heb yr Arthur, "pa du y mae hi?" "Y mae," heb yr un, "yn Aber Deugledyf."

Dyuot a oruc Arthur hyt yn ty Tringat yn Aber Cledyf. A gouyn a oruc orthao: "A glyweist ti y orthi hi yma? Py rith y mae hi?" "Yn rith bleidast," heb ynteu, "ae deu geneu genthi yd ymda. Hi a ladaod vy ysgrybul yn vynych. Ac y mae hi issot yn Aber Cledyf y myon gogof." Sef a oruc Arthur gyrru ym Prytwenn y long ar uor ac ereill ar y tir y hela yr ast; ae chylchynu uelly hi ae deu geneu. Ac eu datrithao o Duo y Arthur yn eu rith ehunein. Goascaru a oruc llu Arthur bob un bob deu.

14. Ac ual yd oed Goythyr mab Greidaol dydgoeith yn kerdet dros vynyd, y clywei leuein a gridua[n] girat; a garscon oed eu clybot. Achub a oruc ynteu parth ac yno. Ac mal y deuth yno, dispeilao cledyf a wnaeth, a llad y toynpath orth y dayar, ac ev diffryt uelly rac y tan. Ac y dywedassant oynteu orthao: "Doc uendyth Duo ar einym gennyt. Ar hynn ny allo dyn vyth y waret, ni a doon y waret itt." Hoyntoy wedy hynny a doethant ar nao hestaor llinat, a nodes Yspadaden Pennkaor ar Culhoch, yn uessuredic oll heb dim yn eisseu ohonunt eithyr un llinhedyn; ar morgrugyn cloff a doeth a honno kynn y nos.

15. Pan yttoed Gei a Bedwyr yn eisted ar benn Pumlumon ar Garn Goylathyr ar wynt moyaf yn y byt, edrych a onaethant yn eu kylch. Ac oynt a oelynt voc maor parth ar deheu ym pell y orthunt heb drossi dim gan y goynt. Ac yna y dywaot Kei: "Myn llao vyng kyueillt, syll dy racco tan ryssor." Bryssyao a orugant parth ar moc, a dynessau parth ac yno dan ymardisgoyl o bell. Yny uyd Dillus Uaruaoc yn deiuao baed coet. Llyna hagen y ryssor moyaf a ochelaod Arthur eiryoet. Heb y Bedwyr yna orth Gei: "Ae hatwaenost di ef?" "Atwen," heb y Kei; "llyna Dillus Uarruaoc. Nyt oes yn y byt kynllyuan a dalyo Drutwyn keneu Greit uab Eri, namyn kynllyuan o uaryf y gor a wely di racko; ac ny moynhaa heuyt, onyt yn

vyȣ y tynnir a chyllellprenneu oe uaraf, kanys breu uyd yn uarȣ." "Mae an kynghor ninneu ȣrth hynny?" heb y Bedwyr. "Gadȣn ef," heb y Kei, "y yssu y wala or kic; a gȣedy hynny kyscu a ȣna." Tra yttoed ef yn hynny, y buant ȣynteu yn gȣneuthur kyllellbrenneu. Pan ȣybu Gei yn diheu y uot ef yn kyscu, gȣneuthur pȣll a oruc dan y draet mȣyhaf yn y byt. A tharaȣ dyrnaȣt arnaȣ anueitraȣl y ueint a oruc, ae wascu yn y pȣll, hyt pan daroed udunt y gnithiaȣ yn llȣyr ar kyllellbrenneu y uaryf; a gȣedy hynny y lad yn gȣbyl. Ac odyna yd aethant ell deu hyt yg Kelli Wic yg Kernyȣ, a chynllyuann o uaryf Dillus Uaruaȣc gantunt. Ae rodi a oruc Kei yn llaȣ Arthur. Ac yna y kanei Arthur yr eglyn hȣnn:

"Kynnllyuan a oruc Kei
o uaryf Dillus uab Eurei;
pei iach, dy angheu uydei."

Ac am hynny y sorres Kei, hyt pan uu abreid y uilwyr yr ynys honn tangneuedu y rȣng Kei ac Arthur. Ac eissoes nac yr anghyfnerth ar Arthur nac yr llad y wyr nyt ymyrrȣys Kei yn reit gyt ac ef o hynny allan.

16. Ac yna y dywaȣt Arthur: "Beth iaȣnaf weithon y geissaȣ or annoetheu?" "Iaȣnaf yȣ keissaȣ Drutwyn keneu Greit uab Eri." Kyn no hynny ychydic yd aeth Creidylat uerch Lud Laȣ Ereint gan Wythyr mab Greidaȣl. A chynn kyscu genthi dyuot Gȣynn uab Nud ae dȣyn y treis. Kynnullaȣ llu o Wythyr uab Greidaȣl a dyuot y ymlad a Gȣynn mab Nud. A goruot o Wyn, a dala Greit mab Eri a Glinneu eil Taran a Gȣrgȣst Letlȣm a Dyfnarth y uab; a dala o Penn uab Nethaȣc a Nȣython a Chyledyr Wyllt y uab. A llad Nȣython a oruc, a diot y gallon, a chymhell ar Kyledyr yssu callon y dat; ac am hynny yd aeth Kyledyr yg gȣyllt. Clybot o Arthur hynny, a dyuot hyt y Gogled.

A dyuynnv a oruc ef Gȣynn uab Nud attaȣ, a gellȣng y wyrda y gantaȣ oe garchar, a gȣneuthur tangneued y rȣng Gȣynn mab Nud a Gȣythyr mab Greidaȣl. Sef tangneued a wnaethpȣyt, gadu y uorȣyn yn ty y that yn diuȣyn or dȣy barth; ac ymlad bob duȣ kalan Mei uyth hyt dyd braȣt or dyd hȣnnȣ allan y rȣng Gȣynn a Gȣythyr; ar un a orffo onadunt dyd braȣt, kymeret y uorȣyn. A gȣedy kymot y gȣyrda hynny uelly, y kauas Arthur Mygdȣn march Gȣedȣ a chynnllyuan Cȣrs Cant Ewin.

17. Gȣedy hynny yd aeth Arthur hyt yn Lydaȣ, a Mabon uab Mellt gantaȣ a Gȣare Gȣallt Euryn, y geissaȣ deu gi Glythmyr L[ed]ewic. A gȣedy eu kaffel yd aeth Arthur hyt yg gorllewin Iwerdon y geissaȣ Gȣrgi Seueri, ac Odgar uab Aed brenhin Iwerdon gyt ac ef. Ac odyna yd aeth Arthur yr Gogled, ac y delis Kyledyr Wyllt. Ac yd aeth Yskithyrwynn Pennbeid; ac yd aeth Mabon mab Mellt, a deu gi Glythuyr Ledewic yn y laȣ a Drutwyn geneu Greit mab Eri. Ac yd aeth Arthur ehun yr erhyl, a Chaualℓ ki Arthur yn y laȣ. Ac yd esgynnȣys Kaȣ o Brydein ar Lamrei kassec Arthur, ac achub yr kyfuarch. Ac yna y kymerth Kaȣ o Brydein nerth bȣyellic, ac yn wychyr trebelit y doeth ef yr baed, ac y hollȣes y benn yn deu hanner. A chymryt a oruc Kaȣ yr ysgithyr. Nyt y kȣn a nottayssei Yspaden ar Gȣlhȣch a ladaȣd y baed, namyn Kaualℓ ki Arthur ehun.

18. A gȣedy llad Ysgithyrwyn Bennbeid, yd aeth Arthur ae niuer hyt yng Kelli Wic yng Kernyȣ. Ac odyno y gyrrȣys Menȣ mab Teirgȣaed y edrych a uei y tlysseu y rȣng deu glust Tȣrch Trȣyth, rac salwen oed uynet y ymdaraȣ ac ef, ony[1] bei y tlysseu gantaȣ. Diheu hagen oed y uot ef yno; neur daroed idaȣ diffeithaȣ traean Iwerdon. Mynet a oruc Menȣ y ymgeis ac ȣynt. Sef y gȣelas ȣynt yn Esgeir Oeruel yn Iwerdon. Ac ymrithaȣ a oruc Menȣ yn rith

1. MS. ac ony, *corr. Loth.*

ederyn ; a disgynnu a ỽnaeth uch penn y gỽal, a cheissaỽ ysglyffyaỽ un or tlysseu y gantaỽ ; ac yn chauas dim hagen namyn un oe wrych. Kyuodi a oruc ynteu yn wychyr da ac ymysgytyaỽ, hyt pan ymordiwedaỽd peth or gỽenỽyn ac ef ; odyna ny bu dianaf Menỽ uyth.

19. Gyrru o Arthur gennat gỽedy hynny ar Odgar uab Aed, brenhin Iwerdon, y erchi peir Diỽrnach Wydel, maer idaỽ. Erchi o Otgar idaỽ y rodi. Y dywaỽt Diỽrnach : " Duỽ a wyr, pei hanffei well o welet un olỽc arnaỽ, nas kaffei." A dyuot o gennat Arthur a nac genthi o Iwerdon. Kychỽynnu a oruc Arthur ac ysgaỽn niuer ganthaỽ, a mynet ym Prytwen y long, a dyuot y Ywerdon ; a dygyrchu ty Diỽrnach Wydel a orugant. Gỽelsant niuer Otgar eu meint. A gỽedy bỽyta onadunt ac yuet eu dogyn, erchi y peir a oruc Arthur. Y dywaỽt ynteu, pei as rodei y neb, y rodei ỽrth eir Odgar brenhin Iwerdon. Gỽedy lleueryd nac udunt, kyuodi a oruc Bedwyr ac ymauael yn y peir, ae dodi ar geuyn Hygỽyd gỽas Arthur ; braỽt oed hỽnnỽ unuam y Gachamỽri gỽas Arthur. Sef oed y sỽyd ef yn wastat ymdỽyn peir Arthur a dodi tan y danaỽ. Meglyt o Lenlleaỽc Wydel yg Kaletvỽlch, ae ellỽng ar y rot, a llad Diỽrnach Wydel ae niuer ach[l]an. Dyuot lluoed Iwerdon ac ymlad ac ỽy. A gỽedy ffo y lluoed achlan, mynet Arthur ae wyr yn eu gỽyd yn y llong, ar peir yn llaỽn o sỽllt Iỽerdon gantunt ; a diskynnu yn ty Lỽydeu mab Kelcoet ym Porth Kerdin yn Dyuet. Ac yno y mae messur y peir.

20. Ac yna y kynnullỽys Arthur a oed o gynifyỽr yn teir ynys Prydein ae their racynys, ac a oed yn Freinc a Llydaỽ a Normandi a Gỽlat yr Haf, ac a oed o gicỽr dethol a march clotuaỽr. Ac yd aeth ar niueroed hynny oll hyt yn Iỽerdon. Ac y bu ouyn maỽr ac ergryn racdaỽ yn Iwerdon. A gỽedy disgynnu Arthur yr tir, dyuot seint Iwerdon attaỽ y erchi naỽd idaỽ. Ac y rodes ynteu naỽd udunt hỽy, ac y

rodassant ỽynteu eu bendyth idaỽ ef. Dyuot a oruc gỽyr Iwerdon hyt att Arthur a rodi bỽyttal idaỽ. Dyuot a oruc Arthur hyt yn Esgeir Oeruel yn Iỽerdon, yn y lle yd oed Twrch Trỽyth ae seithlydyn moch gantaỽ. Gellỽng kỽn arnaỽ o bop parth. Y dyd hỽnnỽ educher yd ymladaỽd y Gỽydyl ac ef ; yr hynny pymhet ran Iwerdon[1] a ỽnaeth yn diffeith. A thrannoeth yd ymladaỽd teulu Arthur ac ef ; namyn a gaỽssant o drỽc y gantaỽ, ny chaỽssant dim o da. Y trydyd dyd yd ymladaỽd Arthur ehun ac ef naỽ nos a naỽ nieu ; ny ladaỽd namyn un parchell oe uoch. Gouynnỽys y gỽyr y Arthur peth oed ystyr yr hỽch hỽnnỽ. Y dywaỽt ynteu : "Brenhin uu, ac am y bechaỽt y rithỽys Duỽ ef yn hỽch."

21. Gyrru a ỽnaeth Arthur Gỽrhyr Gỽalstaỽt Ieithoed y geissaỽ ymadraỽd ac ef. Mynet a oruc Gỽrhyr yn rith ederyn, a disgynnv a ỽnaeth vch benn y wal ef ae seithlydyn moch. A gouyn a oruc Gỽrhyr Gỽalstaỽt Ieithoed idaỽ : "Yr y gỽr ath wnaeth ar y delỽ honn, or gellỽch dywedut, y harchaf dyuot un ohonaỽch y ymdidan ac Arthur." Gỽrtheb a ỽnaeth Grugyn Gỽrych Ereint (mal adaned aryant oed y wrych oll ; y fford y kerdei ar goet ac ar uaes y gỽelit, ual y llithrei y wrych). Sef atteb a rodes Grugyn : " Myn y gỽr an gỽneuthur ni ar y delỽ honn, ny wnaỽn, ac ny dywedỽn dim yr Arthur. Oed digaỽn o drỽc a ỽnathoed Duỽ ynni, an gỽneuthur ar y delỽ hon, kyny deleỽch chỽitheu y ymlad a ni." " Mi a dywedaf yỽch yd ymlad Arthur am y grib ar ellyn ar gỽellеu yssyd rỽng deu glust Twrch Trỽyth." Heb y Grugyn : " Hyt pann gaffer y eneit ef yn gyntaf, ny cheffir y tlysseu hynny. Ar bore auory y kychỽynnỽn ni odyma ; ac yd aỽn y wlat Arthur, ar meint mỽyhaf a allom ni o drỽc a ỽnaỽn yno." Kychỽyn a orugant hỽy ar y mor parth a Chymry. Ac yd aeth Arthur ae luoed ae ueirch ae gỽn ym Prytwen, a tharaỽ lygat ymwelet ac ỽynt. Disgynnu a ỽnaeth

1. MS. y iwerdon.

Tȣrch Trȣyth ym Porth Cleis yn Dyuet. Dyuot a oruc Arthur hyt ym Mynyȣ y nos honno. Trannoeth dywedut y Arthur eu mynet heibaȣ. Ac ymordiwes a oruc ac ef yn ỻad gȣarthec Kynnwas Kȣrr y Uagyl. A gȣedy ỻad a oed yn Deugledyf o dyn a mil kynn dyuot Arthur, or pan deuth Arthur, y kychȣynnȣys Tȣrch Trȣyth odyno hyt ym Presseleu. Dyuot Arthur a ỻuoed y byt hyt yno. Gyrru a oruc Arthur y wyr yr erhyl, Ely a Thrachmyr, a Drutwyn keneu Greit mab Eri yn y laȣ ehun; a Gȣarthegyt uab Kaȣ yghongyl araỻ, a deu gi Glythmyr Letewic yn y laȣ ynteu; a Bedwyr a Chauaỻ ki Arthur yn y laȣ ynteu. A restru a oruc y milwyr oỻ o deu tu Nyuer. Dyuot tri meib Cledyf Divȣlch, gȣyr a gauas clot maȣr yn ỻad Ysgithyrwyn Pennbeid. Ac yna y kychȣynnȣys ynteu o Lynn Nyuer, ac y doeth y Gȣm Kerȣyn, ac y rodes kyuarth yno. Ac yna y ỻadaȣd ef bedwar ryssȣr y Arthur, Gȣarthegyd mab Kaȣ, a Tharaȣc Aỻỻt Clȣyt, a Reidȣn uab Eli Atuer, ac Iscouan Hael. A gȣedy ỻad y gȣyr hynny, y rodes yr eil kyuarth udunt yn y ỻe, ac y ỻadaȣd Gȣydre uab Arthur, a Garselit Wydel, a Gleȣ uab Yscaȣt, ac Iscaȣyn uab Panon; ae doluryaȣ ynteu yna a ȣnaethpȣyt.

22. Ar bore ym bronn y dyd drannoeth yd ymordiwedaȣd rei or gȣyr ac ef. Ac yna y ỻadaȣd Huandaȣ a Gogigȣr a Phenn Pingon, tri gȣeis Gleȣlȣyt Gauaeluaȣr, hyt nas gȣydyat Duȣ was yn y byt ar y helȣ ynteu, eithyr Ỻaesgenym ehunan, gȣr ny hanoed weỻ neb ohonaȣ. Ac y gyt a hynny y ỻadaȣd ỻaȣer o wyr y ȣlat, a Gȣlydyn saer, pensaer y Arthur. Ac yna yd ymordiwedaȣd Arthur ym Pelumyaȣc ac ef. Ac yna y ỻadaȣd ynteu Madaȣc mab Teithyon, a Gȣyn mab Tringat mab Neuet, ac Eiryaȣn Pennỻoran. Ac odyna yd aeth ef hyt yn Aber Tyȣi. Ac yno y rodes kyuarth udunt. Ac yna y ỻadaȣd ef Kynlas mab Kynan, a Gȣilenhin bre[nh]in Freinc. Odyna yd aeth hyt yg

Glynn Ystu. Ac yna yd ymgoỻassant y gȣyr ar cȣn ac ef. Dyuynnu a oruc Arthur Gȣyn uab Nud attaȣ, a gouyn idaȣ a ȣydyat ef dim yȣrth Tȣrch Trȣyth. Y dywaȣt ynteu nas gȣydyat.

23. Y hela y moch yd aeth y kynnydyon yna oỻ hyt yn Dyffryn Ỻychȣr. Ac y digribyȣys Grugyn Gȣaỻỻt Ereint udunt a Ỻȣydaȣc Gouynnyat; ac y ỻadass[ant] y kynnydyon, hyt na diengis dyn yn vyȣ onadunt namyn un gȣr. Sef a oruc Arthur dyuot ae luoed hyt ỻe yd oed Grugyn a Ỻȣydaȣc, a geỻȣng yna arnadunt a oed o gi rynodydoed yn ỻȣyr. Ac ȣrth yr aȣr a dodet yna ar kyuarth, y doeth Tȣrch Trȣyth ac y diffyrth ȣynt. Ac yr pan dathoedynt dros uor Iwerdon, nyt ymwelsei ac ȣynt hyt yna. Dygȣydaȣ a ȣnaethpȣyt yna a gȣyr a chȣn arnaȣ. Ymrodi y gerdet ohonaȣ ynteu hyt ym Mynyd Amanȣ. Ac yna y ỻas banȣ oe uoch ef. Ac yna yd aethpȣyt eneit dros eneit ac ef. Ac y ỻadȣyt yna Tȣrch Llaȣin. Ac yna y ỻas araỻ oe voch; Gȣys oed y enȣ. Ac odyna yd aeth hyt yn Dyffrynn Amanȣ. Ac yno y ỻas banȣ a bennwic. Nyt aeth odyno gantaȣ oe uoch yn vyȣ namyn Grugyn Gȣaỻt Ereint a Ỻȣydaȣc Gouynnyat. Or ỻe hȣnnȣ yd aethant hyt yn Ỻȣch Eȣin. Ac yd ymordiwedaȣd Arthur ac ef yno. Rodi kyuarth a ȣnaeth ynteu yna. Ac yna y ỻadaȣd ef Echel Uordȣyt Tȣỻ, ac Arȣyli eil Gȣydaȣc Gȣyr, a ỻaȣer o wyr a chȣn heuyt. Ac yd aethant odyna hyt yn Llȣch Taȣy. Yscar a ȣnaeth Grugyn Gȣrych Ereint ac ȣynt yna. Ac yd aeth Grugyn odyna hyt yn Dintywi. Ac odyna yd aeth hyt yg Keredigyaȣn, ac Eil a Thrachmyr gantaȣ, a ỻiaȣs gyt ac ȣynt heuyt. Ac y doeth hyt yg Garth Gregyn. Ac yno y[1] ỻas Llȣydaȣc Gouynnyat yn y mysc. Ac y ỻadaȣd Ruduyȣ Rys, a ỻaȣer gyt ac ef. Ac yna yd aeth Ỻȣytaȣc hyt yn Ystrat Yȣ. Ac yno y kyuaruu gȣyr Ỻydaȣ ac ef.

1. MS. y y

Ac yna y llada6d ef Hir Peissa6c brenhin Lyda6, a Lygatrud Emys a Gor̈bothu, e6ythred Arthur, vrodyr y uam. Ac yna y llas ynteu.

24. Tor̈ch Tro̊yth a aeth yna y ro̊ng Ta6y ac Euyas. Go̊yssya6 Kerny6 a Dyfneint o Arthur yn y erbyn hyt yn aber Hafren. A dywedut a oruc Arthur go̊rth vil6yr yr ynys honn: "Tor̈ch Tro̊yth a lada6d lla6er om go̊yr. Myn go̊rhyt go̊yr, nyt a mi yn uy6 yd aho ef y Gerny6. Nys ymlityaf i ef bellach, namyn mynet eneit dros eneit ac ef a wnaf. Go̊ne6ch ch6i a go̊nelhoch." Sef a daruu o gyghor ganta6 ell6ng kat o uarchogyon, a ch6n yr ynys gantunt, hyt yn Euyas, ac ymchoelut odyno hyt yn Hafren, ae ragot yno ac a oed o vilwyr prouedic yn yr ynys honn, ae yrru anghen yn anghen yn Hafren. A mynet a go̊naeth Mabon uab Modron ganta6 ar Wynn mygd6n march Go̊ed6 yn Hafren, a Goreu mab Custennin, a Men6 mab Teirgo̊aed y ro̊ng Llynn Li6an ac aber Go̊y. A dygo̊yda6 o Arthur arna6, a ryss6yr Prydein gyt ac ef. Dynessau a oruc Osla Gyllellua6r a Mana6ydan uab Llyr a Chacmo̊ri go̊as Arthur a Go̊yn Gelli, a dygrynnya6 ynda6, ac ymauael yn gyntaf yn y traet, ae gleica6 ohonunt yn Hafren, yny yttoed yn llen6i odyuchta6. Brathu am6s o Uabon uab Modron or neil[l] parth, a chael yr ellyn y ganta6. Ac or parth arall y dygyrch6ys Kyledyr Wyllt y ar am6s arall ganta6 yn Hafren, ac y duc y go̊ellеu y ganta6. Kynn kaffel diot y grib, kaffel dayar ohona6 ynteu ae draet. Ac or pan gauas y tir, ny all6ys na chi na dyn na march y ganhymdeith, hyt pan aeth y Gerny6. Noc a gaffat o dro̊c yn keissa6 y tlysseu hynny y ganta6, go̊aeth a gaffat yn keissa6 diffryt y deu go̊r rac eu bodi. Kacmo̊ri ual y tynnit ef y uynyd, y tynnei deu uaen ureuan ynteu yr affo̊ys. Osla Gyllellua6r yn redec yn ol y to̊rch, y dygo̊yd6ys y gyllell oe wein ac y kolles; ae wein ynteu

go̊edy hynny yn lla6n or do̊fyr, ual y tynnit ef y uynyd, y tynnei hitheu ef yr affo̊ys. Odyna yd aeth Arthur a llu6oed, hyt pan ymordiweda6d ac ef yg Kerny6. Go̊are oed a gafat o dro̊c ganta6 kyn no hynny y go̊rth a gaffat yna ganta6 yn keissa6 y grib. O dro̊c y gilyd y kaffat y grib y ganta6. Ac odyna y holet ynteu o Gerny6, ac y gyrro̊yt yr mor yn y gyueir. Ny wybu6yt vyth o hynny allan pa le yd aeth, ac Anet ac Aethlem ganta6. Ac odyno yd aeth Arthur y ymeneina6 ac y u6ro̊ y ludet y arna6 hyt yg Kelli Wic yg Kerny6.

25. Dywedut o Arthur: "A oes dim weithon or anoetheu heb gaffel?" Y dywa6t vn or go̊yr: "Oes. Go̊aet y widon Ordu merch y widon Orwen o penn Nant Gouut yg go̊rthtir Uffern." Kych6yn a oruc Arthur parth ar Gogled, a dyuot hyt lle yd oed gogof y wrach. A chynghori o Wynn uab Nud a Go̊ythyr uab Greida6l gell6ng Kacmo̊ri a Hyg6yd y ura6t y ymlad ar wrach. Ac ual yd euthant y my6n yr ogof, y hachub a oruc y wrach; ac ymauael yn Hyg6yd her6yd go̊allt y benn, ae dara6 yr lla6r deni. Ac ymauel o Gacmo̊ri yndi hitheu her6yd go̊allt y phenn, ae thynnu y ar Hyg6yd yr lla6r. Ac ymchoelut a oruc hitheu ar Kacmo̊ri, ac eu dygaboli yll deu, ac eu diaruu, ae gyrru allan dan eu hub ac eu hob. A llidya6 a oruc Arthur o welet y deu was hayachen wedy eu llad, a cheissa6 achub yr ogof. Ac yna y dywedassant Go̊ynn a Go̊ythyr o̊rtha6: "Nyt dec ac nyt digrif genhym dy welet yn ymgribya6 a go̊rach. Gell6ng Hir Amren a Hir Eidyl yr ogof." A mynet a orugant. Ac or bu dro̊c trafferth y deu gynt, go̊aeth uu drafferth y deu hynny, hyt nas go̊ypei Du6 y vn ohonunt ell pedwar allu mynet or lle, namyn mal y dodet ell pedwar ar Lamrei kassec Arthur. Ac yna achub a oruc Arthur dro̊s yr ogof, ac y ar y dro̊s a uyryei y wrach a Charnwennan y gyllell, ae thara6 am y hanner, yny uu yn deu gelo̊rn hi. A chymryt a oruc Ka6 o Brydein go̊aet y widon ae gad6 gantha6.

IV. THE PROCEDURE IN A SUIT FOR LANDED PROPERTY.

Puipe*n*ac aue*n*no kefroẏ haul am tir a dayar.[1] Kefroet panue*n*no o nauuethid kalangayaf allan. Neu onauuethid meẏ. Kanis[2] eramseroyd he*n*ny ybit agoredic keureith am tir ay dayar.

Oderuit yr haulur me*n*nu holi tir en eramseroyt hi*n*ni deuhet[1] ar er argluit yerchi did y guarandau y haul a hi*n*ni aretir. In edid hu*n*nu datkanet y haul. Ni dele y dithun[2] kaifail atebedithun. Kanis haul dissiuit yu ar[3] guercheidveithac wrth hi*n*ni yguercheidveith a deleant oyt urth porth. Yaun yu irhalur y ludyas udunt onit ekeureyth ay deweyt ydeleu. Ac ena emay[4] ereneyt ev guarandau. A gouin pale emay eu porth. Odeweduuant pot eu porth eneu ke*n*mut euhun. Roy oyt trideu udunt. Obit en eli[5] kemut naunieu. Obit en etredit neu uot llanu a treẏ eregthun ac eu porth. Os kin ha*n*ner did ebernir eroytpetheunos or did hunnu ebit eroyt. Os guedi ha*n*ner did petheunos otra*n*noyth. Ac essev achaus yu he*n*ne. Kanydoys did kubilac nat yaun talu drill did en lle did. Ac en eroyt barnedic hu*n*nuemay yaun deuod ar etir[6] ac vynt ac eu porth.

1. Pwy bynnac a uynno kyffroi hawl am dir a dayar, kyffroet pan uynno o nawvet dyd kalan gayaf allan, neu o nawvet dyd Mei. Kanys yn yr amseroed hynny y byd agoredic kyvreith am dir a dayar.

2. O deruyd yr hawlwr mynnu holi tir yn yr amseroed hynny deuet ar yr arglwyd y erchi dyd y warandaw y hawl, a hynny ar y tir. Yn y dyd hwnnw dadganet y hawl. Ny dyly kaffael atteb y dyd hwnn. Kanys hawl dysseivyt yw ar y gwercheidweit. Ac wrth hynny y gwercheidweit a dylyant oet wrth borth. Iawn yw yr hawlwr y ludyas udunt, onyt y gyvreith a dyweit y dylyu. Ac yna y mae iawn yr yneit eu gwarandaw, a govyn pa le y mae eu porth. O dywedant bot eu porth yn eu kymmwt eu hun, roi oet

(Ch. 1). 1 the second *a* is added over the line, 2 *add* yn *with several* MSS.
(Ch. 2). 1 *h* over the line, 2 omit, 3 *add* y *with many* MSS., 4 *add* iaun *with many MSS.*

Ac ena ymay yaun guneythur[1] du[2] pleit ac eiste en[3] keureithiaul. Esseu ual etestedyr en keureythiaul. Eiste orbrenhin neu or neb a uo enile. ay keuen ar er eul[4] neu ar er[5] hin. Rac aulonidu er hin oyuyneb ef. Ar enat llis neu egnat ekemut erhun henau auo en eiste rac euron ef. Ac ar[6] llau assu y hu*n*nu er egnat arall auo enemays neu er eneid.[7] Ac ar ellau tridieu udunt. O byd yn yr eil gymmwt, naw nieu. O byd yn y trydyd neu vot llanw a threi yryngthunt ac eu porth, os kyn hanner dyd y bernir yr oet, pythewnos or dyd hwnnw y byd yr oet; os gwedy hanner dyd, pythewnos o drannoeth. Ac yssef achaws yw hynny; kanyt oes dyd kwbyl, ac nat iawn talu dryll dyd yn lle dyd. Ac yn yr oet barnedic hwnnw y mae iawn dyvot ar y tir ac wynt ac eu porth.

3. Ac yna y mae iawn gwneuthur dwy bleit ac eisted yn gyfreithiawl. Sef ual yd eistedir yn gyfreithyawl. Eisted or brenhin neu or neb a uo yn y le ae gevyn ar yr heul neu ar yr hin, rac avlonydu yr hin oe wyneb ef. Ar ynat llys neu ynat y kymmwt, yr hwn hynaf a uo, yn eisted rac y uron ef. Ac ar y llaw assw y hwnnw yr ynat arall a vo yn y maes. Ac ar y llaw deheu idaw yr

(Ch. 2). 5 leg. ereil, 6 *e* over the line

(Ch. 3). 1 *n* and *y* over the line, 2 leg. dui, 3 MS. eneu, 4 the *e* over the line, 5 added over the line, 6 *add* y *with many* MSS., 7 *after* neu *some letters cancelled*; er eneid *added over the line*

deheu ydau ereferiat neu er eferieit.[8] Ac egkell[9] er argluid edeu heneuid. Ay guirda o hinny allan o popthu ydau. Odena ford yr eneyt keuarvyneb· ac eu[10] darimret yeubraudle. Keghaus er haulur ar ellau assu ydau ar eford· ar haulur enessav· ydau· en eperued[11] ar kanllau ar ellau arall ydau. Ar[12] rigyll en seuill trakeuen ekeghaus[13]· er amdiffinur ar ellau deheu ar eforth· ar amdiffinhur enessau· ydau· eneperued· ay kanllau or tu arall ydau· arigill traigeuen entheu. Gwedi darvo eiste euelly· Kemerer[14] mach ar keureith. Esseu meychẏeu auid ar[15] tir ay dayar. Guystlon[16] o dynyon· deu[17] dyn neu auo muy· o popleit· arey[18] hinni emedyant er argluid edant.

effeiryat neu yr effeiryeit. Ac yg kylch yr arglwyd y deu hyneuid; ae wyrda o hynny allan o bob tu idau. Odyna fford yr yneit gyvarwyneb ac wynt y darymret y eu brawdle. Kynghaws yr hawlwr ar y llaw assw idaw ar y fford, ar hawlwr yn nessaf idaw yn y perved, ar kanllaw ar y llaw arall idaw; ar ringyll yn sevyll tracheuyn y kynghaws. Ar bleit arall y tu arall yr fford; yn nessaf yr fford kynghaws yr amdiffynnwr ar y llaw deheu ar y fford, ar amdiffynnwr yn nessaf idaw yn y perued, ae ganllaw or tu arall idaw; ar rhingyll traegevyn ynteu. Gwedy darvo eisted yvelly, kymerer mach ar gyvreith. Sef meichyeu a vyd ar dir a dayar, gwystlon o dynyon, deu dyn neu a vo mwy o bob pleit. Ar rei hynny yn medyant yr arglwyd yd ant.

(Ch. 3). 8 in marg., where it has been written twice, the first entry having been mutilated by the cutting of the margin, 9 *on p. 103 the phrase is* ẏnẏ gẏlch, 10 *leg.* uy y *or the like,* 11 *after this* ydau *with a stroke beneath it,* 12 after this some letters cancelled, 13 *some words omitted which in the text of the Laws are:* ar bleit arall y tu arall yr ford yn nessat yr fford kyglaȣs, 14 MS. Kemere^{r}t, 15 MS. a^{r}t, 16 some letters cancelled, 17 *e* over the line, 18 *h* after *a* cancelled and *r* written above it.

Odena guedi henne e dodir tellued·[1] essev yu hene.[2] Gostec ar emays. Puipenac a thorro etelleued hoⁿno teyr biu[3] camluru a tal ne nau ugeint. Ar geyr adeweter guedi er ostec bot hunnu[4] en diuunyant er neb ay deweto· ac yr keghaus edevether irporth ydau.

